# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

**HAF 2024**

**TAG**
**CYMRAEG IAITH GYNTAF - UNED 3**
**2000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

## Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu’r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG: IAITH GYNTAF - UNED 3**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2024**

## Adran A

### Defnyddio Iaith a Barddoniaeth

Cyfanswm o **25** marc

- Rhoddir 2 farc am bob brawddeg sydd yn dangos ystyr a defnydd yn eglur a chywirdeb ieithyddol. Rhaid dangos ystyr yn eglur cyn ennill marciau.

1 neu 2 wall – colli ½ marc
Mwy na 2 wall – colli 1 marc
Ystyrir gwallau atalnodi, e.e. acen grom neu atalnod llawn, yn wallau. Hefyd pan gyflwynir dwy frawddeg yn lle un, ystyrir hyn yn un gwall.

**ystyrir**: rhaid cyfleu'r ffurf amhersonol yn yr amser presennol/dyfodol yn gywir.

Ystyrir bod hon yn ffilm dda gan fyfyrwyr sy'n ei hastudio ar hyn o bryd.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Ystyrir fod hon yn ffilm dda gan fyfyrwyr sy'n ei hastudio ar hyn o bryd.
Gellir dyfarnu 1½ marc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd ond cosbir y gwall treiglo.

Ystyrir bod hon yn ffilm dda.
Dim marciau gan na ddangosir ystyr na defnydd yn llawn. Ni ddangosir bod hyn yn digwydd yn y presennol/dyfodol. Gellir defnyddio '*ystyriwyd*' yn y frawddeg hon.

**awn i fy hunan**: rhaid dangos yr amser amherffaith neu'r amodol. Rhaid cael 'tag amser' a 'tag arferiadol' i ddangos yr amser amherffaith. Ni ellir rhoddi marciau os gellir defnyddio '*af'* neu '*euthum'* yn lle '*awn'* yn y frawddeg. Rhaid i'r frawddeg ddangos hefyd y person cyntaf.

Awn i fy hunan ar fy nhaith i'r ysgol bob dydd ar gefn ceffyl ers talwm.
Awn i fy hunan i'r sinema i weld y ffilm ddiweddaraf pe bai arian gennyf Gellir dyfarnu 2 farc am yr atebion hyn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Awn i fy hunan ar fy nhaith i'r ysgol pob dydd ar gefn ceffyl ers talwm.
Dyfernir 1½ marc gan ei bod yn dangos ystyr a defnydd ond cosbir y gwall treiglo.

Awn i fy hunan ar fy nhaith i'r ysgol bob dydd.
Dim marciau gan na ddangosir yr ystyr yn gywir. Dangosir defnydd arferiadol y ferf ond ni ddangosir amser y ferf. Gellir defnyddio '*af*'.

**ynddo**: angen defnyddio'r arddodiad ar ôl berfenw a berfau yn gywir, ac mae angen dangos mai arddodiad trydydd person unigol ydyw. Os bydd yn cael ei ddefnyddio yn dilyn enwau, ansoddeiriau neu gysyllteiriau dylai fod â chyswllt 3ydd person unigol o fewn y frawddeg. Rhaid cael gwrthrych unigol i'r frawddeg.

Dyma'r castell yr oedd y dywysoges yn byw ynddo.

© WJEC CBAC Cyf.

Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Yr oedd yr anrheg ynddo.
Dim marciau gan na ddangosir yr ystyr yn gywir. Nid oes gwrthrych unigol i'r frawddeg. Ni wyddys at beth mae *'ynddo'* yn cyfeirio.

**(3x2 = 6)**

© WJEC CBAC Cyf.

**(b)**

i. Rhoddir 1 marc am esboniad cywir. Disgwylir bod yr ymgeiswyr yn defnyddio termau cywir:

**yn fisol**: ansoddair yn treiglo'n feddal yn y traethiad ar ôl yn. **[1]**

ii. Rhoddir 1 marc am bob ateb cywir:

**enw benywaidd unigol:** blwyddyn
**ansoddair yn dilyn enw gwrywaidd**: diflino, diddorol **[1x2=2]**

iii. Gellir dyfarnu 1 marc yr un am y brawddegau canlynol
Disgwylir rhagenw perthynol **yr** a'i ddilyn gan arddodiad rhedadwy.
Dyma'r ferch **yr** oeddwn yn siarad amdani neithiwr.

Disgwylir rhagenw perthynol **a** mewn cymal ansoddeiriol / perthynol.
Disgynnodd y llanc **a** oedd yn chwilio am ei gi defaid dros y dibyn.

Disgwylir ffurf negyddol y rhagenw perthynol sef **nad**.
Hon yw'r nofel **nad** oes neb yn y dosbarth wedi'i darllen. **[1x3=3]**

iv. Gellir dyfarnu 1marc am y frawddeg ganlynol. Colli ½ marc am 1 neu 2 wall.

Agorir siop gymunedol heddiw ac mae **pethau'n argoeli'n dda/pethau'n ymddangos yn addawol.** **[1]**

v. Rhoddir 1 marc am bob gwall a gywirwyd ac 1 marc am bob esboniad cywir. Rhaid i'r cywiriad fod yn gywir cyn ennill marc. Disgwylir bod y disgyblion yn defnyddio termau cywir, e.e. arddodiad, cysylltair.

**a erioed** > **ag erioed:** angen defnyddio'r **arddodiad** 'ag' o flaen llafariad.

**os** > **pe:** defnydd anghywir o'r **cysylltair** 'os'. Defnyddir y cysylltair 'pe' wrth ddefnyddio'r cyflwr amodol gan fod amheuaeth neu awgrym a ydyw'n wir. **[4]**

vi. Gellir dyfarnu 2 farc am y canlynol.

A **ydyn nhw/ydynt** wedi cofio **eu h**arian?
A **gofion nhw eu h**arian? **[2]**

vii. Rhoddir 2 farc am lunio brawddeg gywir. 1 neu 2 wall colli ½ marc.
Gellir dyfarnu 2 farc am y frawddeg ganlynol:

Mae Cae Gors yn **<u>d</u>**afarn **<u>g</u>**ymunedol **<u>sy'n</u>** darparu bwyd cartref, blasus **<u>a</u>** **<u>th</u>**eithiau amrywiol. **[1/2x4=2]**

© WJEC CBAC Cyf.

viii. Rhoddir 4 marc am lunio paragraff amrywiol ei frawddegau.

1 neu 2 wall neu golli ffaith – colli ½ marc.
Mwy na 2 wall – colli 1 marc.
Ni ddylid cosbi yr un gwall ddwywaith.
Dylid ystyried a oes gorddefnydd o ran geiriau.
Mae angen ystyried cywair y darn hefyd.

Gellir dyfarnu 4 marc am y canlynol:

Cynhelir prawf llafar yn y wers ddydd Mercher nesaf mewn grwpiau o dri. Disgwylir i chwi adolygu dwy act gyntaf y ddrama. Bydd angen i chwi ddewis cymeriad i'w drafod. Gwobrwyïr dyfyniadau cywir yn ogystal â chyfeiriadau at olygfeydd perthnasol. **[4]**

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B**

**Barddoniaeth**

- Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

  Wrth ateb, dylech gofio:
  - trafod y tair cerdd wrth ymateb i ofynion y cwestiwn
  - dadansoddi arddull
  - cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol
  - defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

**Naill ai**

*(a)* Mynegi'r **ymdeimlad dwfn o berthyn** a wna nifer o feirdd yn eu cerddi boed i ddarn o dir neu gymdeithas. **Trafodwch** a **chymharwch** arwyddocâd yr ymdeimlad hwn o berthyn a gawn yng ngwaith Gwenallt, Gwyn Thomas a Waldo Williams. Dylech gyfeirio at **gynnwys** ac **arddull** y cerddi ac **agwedd** y beirdd.

**Neu**

*(b)* Mae lleoliad penodol wedi sbarduno cerddi Menna Elfyn, Myrddin ap Dafydd ac Ifor ap Glyn. **Trafodwch** a **chymharwch** y **themâu** sy'n dod i feddwl y beirdd yn y lleoedd arbennig hyn. Dylech gyfeirio at **gynnwys** ac **arddull** y cerddi ac **arwyddocâd y lleoedd** arbennig hyn i'r beirdd.

© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B**

**Meini Prawf Cwestiwn penodol**

2. **Wrth ateb y naill gwestiwn neu'r llall, disgwylir bod yr ymgeiswyr yn:**
   - cyfeirio'n benodol at gerddi a defnyddio dyfyniadau perthnasol
   - saernïo traethawd ac yn dewis a dethol y perthnasol
   - ymdrin â chrefft/arddull y beirdd, ei saernïo o fewn y drafodaeth gan gyfeirio at y gynghanedd lle bo angen

   **Dyfarnu marciau:**
   - rhaid ystyried ansawdd y drafodaeth wrth ddyfarnu marciau
   - os na roddir sylw i arddull o gwbl dylid gostwng un band marciau
   - pe bai ymgeisydd yn trafod un gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 10
   - pe bai ymgeisydd yn trafod dwy gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 20
   - rhaid i farc iaith AA3 fod o fewn band marciau i farc y cynnwys
   - dylid ystyried 3 phwynt cyntaf meini prawf AA3 yn ogystal â'r ddau sy'n ymwneud â chywirdeb iaith.

**Cwestiwn (a)**

*Mynegi'r **ymdeimlad dwfn o berthyn** a wna nifer o feirdd yn eu cerddi boed i ddarn o dir neu gymdeithas. **Trafodwch** a **chymharwch** arwyddocâd yr ymdeimlad hwn o berthyn a gawn yng ngwaith Gwenallt, Gwyn Thomas a Waldo Williams. Dylech gyfeirio at **gynnwys** y cerddi, **agwedd** y beirdd a'u **harddul**l.*

Byddant yn cyfeirio at *'Y Meirwon'*, *'Preseli'* ac *'Yma mae fy lle'*. Y nod yw **dewis a dethol yr elfennau perthnasol yn unig i ateb gofynion y cwestiwn**. Bydd yr **elfen gymharol** yn rhan hanfodol wrth gyfleu ymateb y beirdd. Mae'r tri bardd wedi cael eu hysbrydoli gan **fro eu mebyd.**

**Arwyddocâd yr ymdeimlad o berthyn**:

Mae Gwyn Thomas yn '*Yma y mae fy lle'* yn myfyrio ar gyfoeth ei brofiadau ym mro ei febyd sef Blaenau Ffestiniog. Yn y pennill cyntaf mae'n agor y drws ar y darlun a'r neges, sef bod y bardd yn perthyn i'r lle hwn, *'mae'r llethrau hyn… wedi'u marcio ynof finnau'.* **Mae'r bardd a'i fro yn perthyn i'w gilydd yn annatod** a chrynhô'r bardd y *'pethau'* allweddol sef tir, byd natur, iaith a diwylliant pobl. Nid rhywbeth arwynebol mo'r teimlad hwn ac mae teitl y gerdd yn crynhoi ei hanfod.

Yn yr un modd cafodd Waldo Williams ei ysbrydoli gan gariad angerddol at fro ei febyd, y tirlun a'r gymdeithas fel ei gilydd yn y Preseli. Mae'r ardal – y lle a'r bobl yn noddfa iddo. **Pobl sydd yn mynd â'i fryd gyda chariad y bardd at ei fro yn tarddu o'r bobl.** Yma dysgodd beth oedd gwir ystyr **brawdoliaeth**. Mae'n caru'r bywyd syml, cyfiawn, y bywyd di-drais, cymdogol, ac mae'r gerdd yn ddeisyfiad ar i'r darllenydd wneud popeth yn ei allu i amddiffyn y gwerthoedd gwaraidd hyn.

Fel Gwyn Thomas a Waldo Williams myfyrio ar ei fagwraeth a'i gynefin gan edrych yn ôl dros gyfnod ei blentyndod yn ardal ddiwydiannol Cwm Tawe a wna Gwenallt wrth iddo droi'n hanner cant. Gwelir dylanwad y profiadau a gafodd yno, sydd wedi ei fowldio I'r hyn ydyw. Ond yn **wahanol i'r beirdd eraill nid yw Gwenallt** yn ymdrin â'r thema o berthyn yn yr un modd. Sonia am **drachwant ac annhegwch y gyfundrefn gyfalafol ddiwydiannol** a ddaeth i Dde Cymru yn sgil y Chwyldro Diwydiannol. Symbol o'r drefn gyfalafol sy'n clymu'r bardd wrth ei fro yw'r *'rhaffau dur'* a **theimlo'n gaeth a wna'r bardd**. Diflannodd y

freuddwyd am Wtopia, sef y byd perffaith gyda phob dyn yn gyfartal o ran statws a chyflog. **Pobl sy'n mynd â'i fryd fel Waldo ac mae gan yr ardal afael ar Gwenallt oherwydd y bobl.** Dyma bobl sydd wedi brwydro yn erbyn diwydiant creulon a derbyn eu ffawd, *'A bwcedaid o angau yn atgo' tan ddiwedd oes'.* Y bobl hyn sydd wedi gwneud i Gwenallt sylweddoli **gwerthoedd bywyd, sef teulu, ffrindiau a chymdeithas.**

**Darlun o'r lle:**

Er mai darlun o le sy'n **ddigon llwm ei dirwedd** sydd gan Gwyn Thomas yn y gerdd '*Yma mae fy lle'*, pwysleisir y modd y mae'r bardd yn uniaethu'n llwyr gydag elfennau sydd o'i gwmpas. Sonnir am yr amrywiaeth o ran tirwedd, y mawnogydd a'r corsydd ar y naill law a'r llethrau a'r creigiau ar y llaw arall; y cyfan yn rhychwantu'r canrifoedd ac yn cyfleu pa mor hynafol yw'r ardal. Nid darlun rhamantaidd a geir.

Fel Gwyn Thomas **nid yw'r amgylchfyd a ddarlunnir yn ardal y Preseli yn ddelfrydol**. Nid yw'r tir yn gyfoethog a sonnir bod y tywydd yn ddiflas; eto mae'r cydweithio a'r gwydnwch a wêl Waldo yn y modd y daw'r bobl i delerau gyda'r amodau byw yn ei ysbrydoli fel bardd. Maent yn gweithio mewn cytgord â'r ddaear, *'yn ymgodymu â daear ac wybren'* a cheir darlun o gymdogaeth yn cael hwyl gyda'i gilydd, *'chwarddiad cawraidd'*.

O gymharu â Gwyn Thomas a Waldo Williams **darlun negyddol o dristwch** a geir gan Gwenallt. O bentref Cymraeg diwydiannol Yr Alltwen gallai'r bardd edrych ar fwg y gwaith dur a'r gwaith alcan ar lawr y dyffryn a'r tomennydd lludw a sgrap. Cyfeirir at dlodi, amodau gwaith peryglus o dan y drefn gyfalafol, salwch, marwolaethau di-urddas, beddau teulu, cymdogion a ffrindiau mewn dwy fynwent yn y pentref. Portreadir darlun anobeithiol, didwyll ac yn **wahanol i Waldo Williams** byd caeth heb frawdgarwch ydyw.

**Dylanwadau sydd arnynt**:

Pwysleisia Gwyn Thomas **y dylanwadau a fu ar ei bersonoliaeth, dylanwadau na ellir eu dileu.** Yn yr un modd na ellir dileu delw y peth cyntaf a welant oddi ar *'gywion gwyddau'*, ni ellir dileu dylanwadau bro ei febyd oddi ar y bardd. Hynny yw, y *'llethrau'* yw un o'r pethau cyntaf a welodd y bardd erioed, mae wedi bod yn rhan o'i fywyd o'r cychwyn. Nid yw'n cyfeirio at ddim byd rhyfeddol, dim ond tynnu ein sylw at y pethau elfennol Cymreig a ddylanwadodd arno. Y dylanwadau hyn a greodd y bardd a dylanwadu ar '*lefelau dyfnaf fy mod'*. Nid disgrifio bro ei febyd yn y gorffennol a wna Gwyn Thomas ond disgrifio'r lle **heddiw** yn y presennol er mwyn pwysleisio mor drwm y mae dylanwadau'r ardal arno. Dengys yma fod y dylanwadau sydd ar berson yn ei ieuenctid yn parhau drwy gydol bywyd, *'wedi'u marcio'* arno.

Cafodd Waldo ei ysbrydoli hefyd a chyfeiria at ei fro fel **rhan annatod o'i hunaniaeth**. Dyma'r ardal ddelfrydol. Microcosm o Gymru yw ei fro a mynega ei gariad ati. Gwêl fygythiad y Weinyddiaeth Amddiffyn yn tanseilio ei hunaniaeth ac yn bygwth ei fro ddelfrydol.

Mae'r dylanwadau ar Gwenallt yr un mor arwyddocaol ond **marwolaethau annisgwyl, dirybudd**, cyn eu hamser a *'naid yn sydyn slei'* ydynt. Gwyddai Gwenallt beth oedd effaith *'yr angau llychlyd', 'yr angau a chanddo arswyd tynghedfen las' sef* marwolaethau y gwastraff diwydiannol*.* Amodau byw erchyll a oedd yn gyfrifol am iddo **glywed oedolion yn siarad am wrthryfel a thrais,** *'Yno y dysgasom uwch cloriau wedi eu sgriwio cyn eu pryd Golectau gwrthryfel coch a litanïau trais'* ac a ddylanwadodd arno i ddod yn sosialwr ac arddel tegwch a chydraddoldeb mewn cymdeithas. **Dylanwad y marwolaethau hyn a newidiodd natur pobl** a'u troi yn *'anwariaid'* yn eu galar.

**Agwedd y beirdd – darlunio gwerthoedd bro eu mebyd/anghyfiawnder:**

Gellir sôn bod Gwyn Thomas yn defnyddio bro ei febyd i ymchwilio i **ystyr bywyd**. Profiad cadarnhaol sydd yma ac mae'r pennill olaf yn crynhoi'r holl *'bethau'* sydd '*wedi'u marcio'* ynddo am byth sef tirwedd, *'yng ngarwedd yr ucheldir'*; byd natur, *'eneidiau cyfeiliorn'*; gwreiddiau hynafol yr ardal, *'pethau hen…elfennig'* ynghyd â'i phobl a'i diwylliant. **Dyma'r gwreiddiau sydd yn rhoi iddo ei hunaniaeth.**

Yn yr un modd wedyn Waldo; er ei fod yn cydnabod mai cyfnod byr yw ein bodolaeth ni ar y ddaear sef y '*drofa fer'* pwysleisia fod gan bawb ei gyfraniad i'w wneud a dyna'r her sydd angen i ni ei hwynebu. **Agwedd cadarnhaol** sydd gan Waldo. Oherwydd ei gred sylfaenol yn naioni dyn mae'i olwg ar **fywyd yn un llawn gobaith** a chaiff hyn ei drosglwyddo wrth iddo ddefnyddio delweddau arbennig. **Gwerthoedd ysbrydol a brawdgarwch yw unig obaith y ddynoliaeth i fyw bywyd heddychlon** ac roedd gan Waldo sicrwydd y byddai hyn yn goroesi unrhyw fygythiad.

Gwelir pwysigrwydd **Cymru a'r iaith Gymraeg** wrth iddo edrych allan ar y byd drwy ffenestr ei iaith a'i ddiwylliant - dyna arwyddocâd Y Preseli, bro ei febyd iddo. Hynny yw, mae'r fro a'r gymdeithas hon wedi galluogi Waldo i weld y byd trwy lygaid ei gymuned sy'n gwerthfawrogi **brawdgarwch, brogarwch a chenedlgarwch**. Gwelir gwerthoedd cenedlaetholgar Waldo gan fod ei fro yn adlewyrchiad o'i wlad. Mae Cymru'n fwy na gwlad; mae'n gymdeithas, yn gred. Nid ceisio ateb a wna yn *'Preseli'* ond rhoi'r ateb – **cenhadu'n dawel ac yn heddychlon a wna gan ymbil arnom i warchod ei ardal a'i gwerthoedd gwaraidd**. Drwy edrych yn ôl i'r gorffennol ac ar y presennol caiff Waldo ateb i'r dyfodol.

Gwenallt yw'r un **mwyaf hallt ei feirniadaeth** oherwydd i'r dioddefaint a'r anghyfiawnder yr oedd mor ymwybodol ohono yn ifanc adael craith ar ei gof. **Nid yw treigl amser wedi pylu dim ar ei ddicter.** Roedd ei blentyndod o dan gysgod parhaol angau a disgrifia ddau o'i ffrindiau bore oes yn *'chwydu eu hysgyfaint i fwced yn fudr goch'*. Mae darlun y *'peswch'* yn ddelwedd ddidrugaredd o sgil-effeithiau'r diwydiant glo. Dylanwad creulondeb y gyfundrefn gyfalafol ddiwydiannol arno oedd yn bennaf gyfrifol o'i bererindod a'i agwedd at y gymdeithas Gristnogol y'i magwyd ynddi. Cafodd flynyddoedd o **dyndra rhwng syniadau Marcsiaeth a Christnogaeth** a gwelodd seiliau ei ffydd yn gwanhau.

Ond er gwaethaf dicter Gwenallt yn erbyn effeithiau cyfalafiaeth daw yntau erbyn diwedd ei gerdd **i edmygu dewrder a gwerthoedd ei gymdeithas fel Gwyn Thomas a Waldo sef gwerthoedd y gymdeithas ddiwydiannol** yr oedd yn rhan ohoni. Y *Meirwon* hyn a ddangosodd iddo werthoedd bywyd.

**Defnyddio Iaith lafar bro eu mebyd:**

Defnyddia Gwenallt iaith lafar addas ac agos atoch wrth sôn am ei brofiadau e.e. '*Y bobl a'r cynefin a foldiodd ei fywyd e,' 'feisiglau',*
Yn yr un modd defnyddia Waldo Williams eirfa megis *'closydd', 'gelaets', 'medel'* a Gwyn Thomas yn defnyddio ffurf tafodieithol y gair llygaid sef *'llygadau'.*

Dylid cyfeirio at **effeithiolrwydd y mesurau ac arddull** wrth fynegi'r ymdeimlad o berthyn, e.e. y mesur penrhydd i Gwyn Thomas yn caniatáu iddo ddefnyddio'r odl yn bwrpasol yn y clo gyda'r ymadrodd arwyddocaol *'fy mod'*. Rhythm a sain y geiriau sy'n allweddol wrth gyfleu syniadau a theimladau'r bardd. Mae'r gyfres o benillion pedair llinell o hyd gyda phatrwm odli yn rhoi cyfle i Gwenallt ddarlunio ei ddicter tuag at yr annhegwch cymdeithasol. Penillion pedair llinell yn odli a geir yn 'Preseli' gyda nifer o gyffyrddiadau cynganeddol ynddi.

© WJEC CBAC Cyf.

**‘Yma y mae fy lle’ gan Gwyn Thomas**

- Perthyn i ardal bro ei febyd sef Blaenau Ffestiniog, mynegi ymlyniad at ddarn o dir, ymdeimlad dwfn o berthyn.
- Mae’r bardd a’r lleoliad yn perthyn i’w gilydd yn annatod.
- Pwysleisir y dylanwadau a fu arno, dylanwadau na ellir eu dileu.
- Nid disgrifio a phwysleisio harddwch y lle a wna’r bardd ond yn hytrach yr amrywiaeth o ran tirwedd, y mawnogydd a’r corsydd ar y naill law a’r creigiau ar y llaw arall a dyma gyfoeth ei brofiadau, maent yn rhychwantu’r canrifoedd.
- Cyfeiria at fyd natur a’r diwydiant llechi, y ‘*gigfran a’r gylfinir*’ a’r ‘*defaid*’ sef y pethau elfennol Cymreig hyn a ddylanwadodd arno.
- Mae fel petai’r *‘gwair gwydn’* yn bodoli law yn llaw gyda’r diwydiant llechi. Cyfeirir at gynnwrf y lle o ganlyniad i’r diwydiant llechi. Edmyga fedrusrwydd y chwarelwyr a theimla gysylltiad â’r tir hynafol sy’n nodweddiadol o’r gymdeithas.
- Y dylanwadau hyn a greodd y bardd sy’n parhau drwy gydol bywyd ‘*hyd lefelau dyfnaf fy mod’.*
- Pwysleisir y modd y mae’r bardd yn uniaethu’n llwyr gyda’r elfennau sydd o’i gwmpas.
- Nid rhywbeth arwynebol mo’r teimlad hwn o berthyn, ond rhywbeth sy’n treiddio i fêr ei esgyrn.
- Disgrifio bro ei febyd yn y presennol a wna’r bardd.
- Cerdd yn y mesur penrhydd sy’n defnyddio odl yn achlysurol, e.e. defnyddia’r odl wrth gloi’r gerdd er mwyn cysylltu’r geiriau pwysig ‘*yn ddiddarfod*’ a ‘*fy mod’*, defnydd o ailadrodd ‘*yma y mae fy lle*’ gan ddefnyddio rhagenw person cyntaf ‘*fy’*, gwrthgyferbyniadau: ‘*mawnogydd a’r mannau llaith*’ ac ‘*esgeiriau hir y creigiau*,’ cyflythrennu *‘gwair gwydn’* yn cyfleu natur y tirwedd a gwydnwch pobl yr ardal, cyffelybiaeth ‘*meini llwydion fel llygadau’r cynfyd*’ yn rhychwantu’r canrifoedd, agor y gerdd â’r gair ‘*annileadwy*’ a chloi drwy ddefnyddio ‘*yn ddiddarfod’*, paradocs ‘*darniwyd yn ddethau â ffrwydron’* wrth ddisgrifio crefft y chwarelwr, uchafbwynt yn y llinell olaf.

**‘Preseli’ gan Waldo Williams**

- Pwysigrwydd bro’r Preseli, yr iaith Gymraeg a Chymru.
- Ysgrifennu pan oedd y weinyddiaeth rhyfel yn bygwth codi maes ymarfer rhyfel o amgylch ardal Mynachlog Ddu.
- Adnabod ei ardal yn dda a’r hyn sydd o’i amgylch sydd wedi magu ynddo annibyniaeth barn.
- Cyfeirio at ei fro enedigol fel ‘bro brawdoliaeth’ a chariad Waldo at fro yn tarddu o’r bobl.
- Gwêl ei fro fel rhan annatod o’i hunaniaeth, bygythiad i’w fro yn tanseilio ei hunaniaeth.
- Brawdgarwch a brawdoliaeth, penillion 2 a 3: thema allweddol.
- Cymdeithas ddynol ar y Preseli yn wydn ac yn cydweithio, er yn brin yn faterol, syniad o berthyn yma.
- Gwêl yn y Preseli obaith i ddynoliaeth, dyma enghraifft berffaith sut y dylai pobl fod yn byw ac yn gweithio gyda’i gilydd – microcosm o Gymru yw’r ardal.
- Darlun delfrydol o fro ei febyd a’r ple wrth gloi.
- Heddychiaeth yn y clo, rhyfel a’r ffatri arfau yn bygwth yr heddwch hwn.
- Waldo yn gwbl argyhoeddedig nad rhyfel yw’r ateb i broblemau’r gymdeithas.
- Gobaith yn treiddio drwy’r gerdd, y gobaith am y dyfodol yn cael ei drosglwyddo wrth ddefnyddio delweddau byd natur a’r *‘ffenestr’* a’r *‘ffynnon’.*
- Cerdd rydd – amrywio hyd llinellau ond yn defnyddio odl.
- Ymhyfrydu yn sŵn a sain yr enwau lleol, cyferbyniad: *‘yr yrfa faith ar y drofa fer’*, delwedd o *‘dŷ’*, ailadrodd y ferf *‘cadwn’*; arwyddocâd y rhagenw blaen *‘fy’*; trosiad.
- ‘*Ac yn estyn yr haul i’r plant o’u plyg’* i gyfleu caredigrwydd a gofal y bobl; Waldo yn mynnu bod ei gyd-Gymry yn sefyll fel un, *‘perl yr anfeidrol awr’*: mae’r lle fel trysor gorau posibl iddo.

**‘Y Meirwon’ gan Gwenallt**

- Cerdd i gymdeithas ddiwydiannol Cwm Tawe, yn cyfleu caledi ac enbydrwydd y dosbarth gweithiol. Mae’r bardd yn dadansoddi’i gymdeithas a’i gynefin ac yn olrhain ei bererindod.
- Atgofion am ei gyfoedion fu’n chwarae rygbi ag ef, doedd ganddo ddim syniad beth fyddai eu tynged.
- Cyflëir agwedd y bardd at y gymdeithas Gristnogol y’i magwyd ynddi. Cafodd flynyddoedd o dyndra rhwng Marcsiaeth a Christnogaeth a gwelodd seiliau ei ffydd yn ymddatod.
- Gwelir dicter cynyddol y bardd wrth sôn am angau ond nid angau cyffredin mohono fel yr angau a wybu ardaloedd a oedd yn rhydd o ddamweiniau'r byd cyfalafol.
- Gwyddai Gwenallt o brofiad personol beth oedd effaith ‘*yr angau llychlyd,*’ ‘*yr angau a chanddo arswyd tynghedfen las;*’ sef marwolaethau cynamserol, y gwastraff diwydiannol.
- Gwyddai hefyd am ddycnwch y gweddwon ‘*a llond dwrn o arian y gwaed’* yn waddol am oes o aberth. Dioddefent yn dawel, yn ddi-emosiwn gan dderbyn iawndal am eu colledion, ‘*A bwcedaid o angau yn atgo’ tan ddiwedd oes’*.
- Adnabu Gwenallt ruddin y gymdeithas ddiwydiannol, ei dewrder a gwerthoedd dynoliaeth.
- Dychwelyd at Gristnogaeth a wnaeth, at egwyddorion Cristnogol yn hytrach na chapelyddol.
- Mae’r clo yn frathog, yn feirniadol ac yn nodweddiadol o Gwenallt sosialaidd a chrefyddol. Ceir yma eironi dyrchafol. Chwalwyd ei fyd delfrydol, ei ‘*Wtopia*’ pan ddaeth y gweithiau dur ac alcan i’r fro ond eto noda mai *Y Meirwon* a ddangosodd iddo werthoedd cynhaliol bywyd. Er nad yw’r gerdd yn clodfori na delfrydu, mae’n gerdd o foliant i’r bobl.
- Ceir yma weledigaeth onest iawn - sylfaen pob gwareiddiad yw teulu, dyn a’i gymdogaeth.
- Arddull sgyrsiol ar gychwyn y gerdd, cyflythrennu ‘*A’r rhaffau dur a’m deil dynnaf wrthynt hwy*’ yn pwysleisio ei gysylltiad â’r gorffennol, ‘*beddau*’ yn drosiad o fyd glofaol - nid oes neb yn byw i’w gofio, gwrthgyferbyniadau - naws ysgafn / tristwch y penillion cyntaf, chwarae ar eiriau - ‘*Y Merthyron’* - eironi cignoeth, dau ferfenw negyddol pwerus ‘*torri’, ‘tywyllu’.* Ymadroddion ‘*sleifiem i’r parlyrau Beiblaidd i sbïo yn syn*’ yn gwbl wrthgyferbyniol i’r cyfeiriad at ganeuon gwrthryfel y genhedlaeth iau ‘*Colectau gwrthryfel coch - trais’*. Delweddu angau ‘*y llewpart diwydiannol a naid yn sydyn slei*.’ Rhythmau amrywiol i gyfleu arafwch ‘*yr angau a gerdd….. llaith’* a sydynrwydd disymwth ‘*y llewpart diwydiannol*’, gwrthgyferbynnu geiriau aml sillafog ac unsillafog i gyfleu effaith. Personoli angau ‘*angau hwteraidd’*. Cyfres o ansoddeiriau cras i fwrw gwawd ar y gelyn ‘*yr angau llychlyd, myglyd, meddw’* - cynghanedd yn atgyfnerthu’r teimladau, cyfansoddair ‘*dewrfud*’ yn crisialu i’r dim.

*Mae modd i ymgeiswyr ennill marciau trwy gyfeirio at nodweddion perthnasol na nodwyd yn y cynllun marcio hwn. Dylid gwobrwyo pob ateb teilwng.*

© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn (b)**

Mae lleoliad penodol wedi sbarduno cerddi Menna Elfyn, Myrddin ap Dafydd ac Ifor ap Glyn. **Trafodwch** a **chymharwch** y **themâu** sy'n codi yn y lleoedd arbennig hyn. Dylech gyfeirio at **gynnwys** y cerddi, **arwyddocâd y lleoedd** arbennig hyn i'r beirdd a'u **harddull**.

Byddant yn cyfeirio at 'Gwenllian' 'Sul y Mamau yn Greenham, 1984' a 'Beaufort, Blaenau Gwent, mewn gwyrdd'. Y nod yw **dewis a dethol yr elfennau perthnasol yn unig i ateb gofynion y cwestiwn.** Bydd yr **elfen gymharol** yn rhan hanfodol wrth gyfleu **themâu'r beirdd ac arwyddocâ̂d y lleoedd**. Mae'r tri bardd wedi cyfansoddi eu cerddi yn ystod cyfnodau gwahanol, a'r lleoliadau amrywiol yn sbarduno **themâu** amrywiol.

**Lleoedd a'r themâu:**

Pentref **Beaufort,** ym Mlaenau Gwent yn ne-ddwyrain Cymru yw lleoliad cerdd Ifor ap Glyn, yn wir, canolbwyntir ar fynwent Capel Carmel a cheir yma dirlun diffaith. Mae adeilad y capel wedi cau, y *'Gymraeg yn llwyd,'* beddau yn y fynwent yn boddi mewn *'môr o ddail tafol,'* y gwynt yn chwipio'r tyfiant a storm yn cyniwair. Y Gymraeg yw'r geiriau ar y cerrig beddau ond nid oes fawr ddim bywyd ynddi. Atgof yn unig yw'r iaith Gymraeg, yn ddim ond *'naddion ar y meini'*. Mae delwedd y brain fel petai'n darogan gwae a ffenestri'r capel fel llygaid yn *'rhythu'* yn creu awyrgylch sinistr. **Dirywiad y Gymraeg** a **chariad at iaith** yw'r themâu allweddol yn rhan gyntaf y gerdd a **phryderu am sefyllfa ieithyddol** pentref Beaufort a Chapel Carmel a wna'r bardd.

**Comin Greenham** yw lleoliad cerdd Menna Elfyn ac roedd 1984 yn gyfnod protestiadau Comin Greenham yn erbyn hawl awdurdodau America i gadw arfau niwclear yno. Byddai protestwyr yn gosod pebyll ac yn gwrthdystio'n heddychlon a di-drais yn erbyn yr arfau dinistriol. Er bod y lleoliad fel petai'n pwysleisio'r elfen ddinistriol a'r **thema rhyfel** sef yr arfau niwclear, yr ymladd a dinistrio eiddo, dyheu am **heddwch** a wna'r bardd ac y daw dyn i weld **perygl yr arfau** hyn. Ystyried y weithred o brotestio yn weithred o **garu eich cyd-ddyn** a wna Menna Elfyn felly ynghyd â **gwarchod gwerthoedd sylfaenol teulu.**

Ymweliad Myrddin ap Dafydd ag **Abaty Llanfaes ar lan afon Menai** ar noson o haf yn ystod 1993 sydd wedi sbarduno'r gerdd *'Gwenllian'*. Ceir yma fyfyrdod am dynged Gwenllian ac am dristwch ei hanes. Er ein hanwybodaeth ni fel cenedl am ei halltudiaeth mae arwyddocâd arbennig iddi gan ei bod yn ddelwedd i **gyflwr yr iaith Gymraeg**. Wrth fyfyrio ar lan y Fenai sylweddola'r bardd, yn union fel Gwenllïan, fod y Gymraeg wedi cael ei hesgymuno a bod yr iaith yn alltud i sawl rhan o Gymru erbyn hyn. **Cofio'r gorffennol er mwyn gwneud gwahaniaeth yn y presennol** a wna'r bardd.

**Agwedd feirniadol/drist wrth ymdrin â'r themâu:**

Gwêl Menna Elfyn **berygl rhyfel** a sylweddola pa mor fregus yw'r sefyllfa a'n bod *'ar erchwyn y didangnef'*. Cyfeiria at yr eira a'r ffin o bwys sef *'Y Ffens'* sy'n amgylchynu ac yn gwarchod storfeydd yr arfau niwclear. Dyma awgrym o'r perygl a gall pethau fynd o chwith ar unrhyw adeg. Mae'n sefyllfa beryglus nad yw'n bosibl gweld diwedd iddi; mae'n *(g)erdd a allai fynd ymlaen drwy'n bywyd'*. Darlunnir bywyd dyddiol y menywod sy'n protestio ac yn *'cadw tŷ̂ di-do'.* Cyfeirir at yr *'sgarmesoedd ganol nos'* nes bod eiddo'r merched *'yn sarn'* a'r dyfalbarhad sy'n rhaid wrtho. Mae'r lleoliad felly ar y naill law yn pwysleisio'r **elfen ddinistriol** a'r **thema o ryfel**. Cyflëir hefyd bod y merched drwy brotestio yn **peryglu eu bywydau a'u rhyddid.**

Cyfleu ei **feirniadaeth a wna Myrddin ap Dafydd** am ein diffyg cydnabyddiaeth ni fel Cymry o **sefyllfa fregus ein hiaith** drwy gyfrwng trosiad estynedig lle mae Gwenllian yn cynrychioli'r Gymraeg. Mae tristwch yn llais y bardd wrth gyfleu '*distawrwydd didosturi'*. Mae

yma feirniadaeth ohonom ni fel Cymry nad ydym yn trysori ein hiaith yn ddigonol nac yn gwybod digon o'n hanes. Ardal ddideimlad, ddi-angerdd yw Gwynedd, *'Wynedd hen, ddi-wên, ddi-wg'* a *'mynwent yw dŵr Menai*.' **Mae'r bardd felly yn boenus o ymwybodol o'r bygythiad i'r iaith a chenedligrwydd y Cymry**, nid oes *'craig i ddal ei chregyn'*. Y Cymry yw'r cregyn sydd heb angor na chadernid craig i'n cynnal sef y Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'n hanes a'n hetifeddiaeth. Mae elfen o feirniadaeth yma hefyd o'n hanwybodaeth ni fel cenedl. Rydym ni *'heb wybod'* hanes Gwenllian ac mae'r Gymraeg *'heb sgwrs'*. **Proffwydo tranc ein gwlad a wneir gan ein rhybuddio'n glir am beryglon colli'n hiaith a'n hetifeddiaeth**.

Defnyddio elfennau natur i gyfleu **dirywiad Beaufort a'r Gymraeg** a wna Ifor ap Glyn i ddechrau. Ymddengys fod y *'tonnau emrallt yn gado storom'* a'r brain yn darogan gwae a disgwylir i'r awyr a'r awyrgylch dywyllu ymhellach.

**Arwyddocâd y Lleoliadau: cynnig gobaith i'r beirdd (thema)**

**Agwedd obeithiol** a geir gan Ifor ap Glyn a gwêl **gysylltiad rhwng y gorffennol a'r presennol/dyfodol**, wrth i ardal geisio ymaddasu ac adennill ei gafael yn yr iaith Gymraeg. Storm *'coetsus a welingtons'* a *'(ph)onchos dayglo'* yw hon. Daw'r storm *'yn gawod o liw'*. I ganol y fynwent daw gobaith am ddyfodol llewyrchus i'r iaith Gymraeg drwy gynnwrf lleisiau'r plant bach a'u *'Cymraeg Ysgol Feithrin fel mellt yn y llwydwyllt.'* Gwêl y bardd holl dyfiant y fynwent yn symbol am dwf yr iaith. Cynrychioli hanes a gwreiddiau cymdeithas a wna'r meirwon. Ond nid cyrff ein hynafiaid sy'n gwrteithio'r tir yn unig ond ein hiaith hefyd, *'Mae'r meirw a'r heniaith yn bwydo'r tir ac mae'r iaith yn wyrdd, fel y fynwent ir.'* **Gwêl y bardd gysylltiad rhwng y cyndeidiau a fu'n siarad Cymraeg a'r genhedlaeth bresennol sy'n rhan o adfywiad yr iaith.**

Er gwaetha tristwch Myrddin ap Dafydd, mae'n cynnig gobaith ac arweiniad. **Caiff ysbrydoliaeth a chaiff ei argyhoeddi**, fel y mae'r llanw'n troi'n sydyn a'r dŵr yn deffro'r cerrig mân i greu sŵn ar draeth Lafan, y daw'r iaith eto *'i mewn dros dywod Menai'* gan ennill ei thiriogaeth. Yn sgil ymroddiad cenedlaetholwyr angerddol mae'r bardd yn obeithiol y bydd ymwybyddiaeth y Cymry o'r iaith Gymraeg a Gwenllian yn dychwelyd a hynny yn sgil dau ddigwyddiad arwyddocaol sef codi cofeb i Gwenllian ac ail-sefydlu statws swyddogol i'r Gymraeg o ganlyniad i'r Ddeddf Iaith. **Sylweddola fod yna obaith, gobaith y bydd pobl felly yn dod i gofio am Gwenllian a gobaith wrth ystyried sefyllfa'r iaith y bydd hithau'n dychwelyd i hawlio ei phriod le yng Ngwynedd ac yng Nghymru gyfan.** Mae'r gobaith mae'r bardd yn ei gynnig hefyd yn dwysau cydwybod y darllenydd o ran derbyn ei gyfrifoldebau.

I Menna Elfyn mae'r weithred o brotestio yng Nghomin Greenham yn weithred o **garu eich cymydog ynghyd â gwarchod gwerthoedd sylfaenol teulu.** Teimla'r bardd fod ateb a bod **gobaith dim ond i bawb berchenogi'r ymdrech.** Mae'r bardd yn cyfleu nad oes modd celu rhinweddau pobl a'u hawydd am heddwch. Troi'n symbol o gariad a wna gwersyll Greenham a hanfod y gerdd yw mai grym cariad a hedd sydd ei angen yn y byd nid rhyfel a thrais.

**Arwyddocâd pobl yn y lleoedd hyn:**

Yn Greenham, yn y **chwaeroliaeth** mae'r cysur a'r ffaith bod *'mwy'n cyrraedd'* yn rhoi nerth i'r merched ddal ati. **Dyfalbarhau** yw eu rhinwedd a *'c(h)ychwyn eto fory'*.

**Symbol o obaith yw plant yr ysgol feithrin** i Ifor ap Glyn *'Eu lleisiau'n diasbedain rhwng y beddau'* sy'n cyfleu gobaith ynglŷn â'r iaith Gymraeg.

Ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Defnyddio **hanes Gwenllian** er mwyn rhannu ei weledigaeth am Gymru a sefyllfa'r iaith Gymraeg a wna Myrddin ap Dafydd.

**Natur yn y lleoliadau hyn: arddull y bardd**

**Personoli byd natur** wna Myrddin ap Dafydd ar ddechrau'r cywydd i gyfleu tawelwch sef y tawelwch ai ysbrydolodd i feddwl am Gwenllian, cyferbynnu â'r clo.

Mae **gwyrddni** ar ddechrau *'Beaufort, Blaenau Gwent, mewn gwyrdd'* yn arwydd o ddirywiad ond erbyn y diwedd yn cyfleu gobaith ac yn arwydd o dwf yr iaith.

Awgrymu bod modd **goresgyn trais** a wna'r cyfeiriad at y *'saffrwm yn codi'* a'r '*cennin Pedr o Gymru'n blodeuo'* yn *'Sul y Mamau yn Greenham, 1984'*

**Amseroedd - gorffennol, presennol/dyfodol:**

*'Beaufort, Blaenau Gwent, mewn gwyrdd'* **-** gwêl y bardd gysylltiad rhwng y cyndeidiau a fu'n siarad Cymraeg a'r genhedlaeth bresennol sy'n rhan o adfywiad yr iaith.

*'Gwenllian'* - defnyddio'r gorffennol er mwyn cyfleu neges am y presennol a'r dyfodol a wna Myrddin ap Dafydd.

**Cadw ffydd, gweithredu a brwydro:**

Gellir cyfeirio at *'Gwenllian'* a *'Sul y Mamau yn Greenham, 1984'*.

Dylent gyfeirio at **effeithiolrwydd y mesurau a'r arddull** wrth drafod, e.e. Ifor ap Glyn yn manteisio ar ddefnyddio cwpled sy'n odli i gloi'r gerdd yn gofiadwy sy'n cyd-fynd â natur obeithiol y clo; Myrddin ap Dafydd yn defnyddio'r cywydd sy'n rhoi statws i Gwenllian gan ddyrchafu'r Gymraeg a Menna Elfyn yn manteisio ar ryddid y mesur i orffen yn gadarn gyda lleoliad y gerdd, *'Yn Greenham'.*

**'Beaufort, Blaenau Gwent, mewn gwyrdd' gan Ifor ap Glyn**

- Gwêl y bardd newid mewn cymdeithas, mae capel Carmel wedi cau a'r fynwent yn wyllt gan dyfiant yr haf.
- Cyferbynnir bywyd a marwolaeth drwyddi draw.
- Cymherir dirywiad y Gymraeg â'r dirywiad yng nghyflwr y cerrig beddau. Er gwaethaf ei phresenoldeb ar y cerrig beddau nid oes llawer o fywyd iddi.
- Mae'r darlun negyddol yn parhau wrth ddisgrifio ffenestri'r capel a'r brain, nid oes llawenydd na gobaith yma.
- Ceir newid llwyr yn y pedwerydd pennill a chyfeiria'r bardd ato ef ei hun yn y person cyntaf unigol *'daw'r storom i'm hysgwyd o'm sentimentaleiddio'*.
- Datblyga'r ddelwedd estynedig o'r *'storom'* yn storom liwgar o blant, o bramiau a welingtons.
- Mae bywyd yn y festri a phlant yr ysgol feithrin yn cadw twrw yn y Gymraeg.
- Yn y clo gwêl y bardd obaith i'r dyfodol a daw holl dyfiant y fynwent yn symbol am dwf yr iaith.
- Mae'r meirw a'r heniaith yn gwrteithio'r tir.
- Mesur penrhydd a geir yma a'r penillion yn amrywio o ran llinellau.
- Ceir gwrthgyferbyniad rhwng bywyd a marwolaeth, effeithiolrwydd y lliw gwyrdd, personoli'r Gymraeg, delwedd estynedig o'r storom, cyfleu sŵn cras â geiriau, personoli ffenestri'r capel, cyferbyniad rhwng y capel a'r festri, cwpled clo sy'n odli.

**‘Sul y Mamau yn Greenham, 1984’ gan Menna Elfyn**

- Ystyria’r bardd y brotest yng Nghomin Greenham fel cerdd.
- Ceir cyfosod rhwng y dynion a merched; y dynion yn eu lifrau gwaith yn *‘bwrw’* a’r merched yn *‘creu anheddau’.*
- Cyfeirir at y ffin sef y *‘Ffens’* sy’n amgylchynu ac yn gwarchod storfeydd yr arfau niwclear; dyma symbol o awdurdod sy’n cyferbynnu gyda diffyg grym y merched wrth iddynt *‘chwarae tŷ bach mewn cylch’*.
- Portreadir y merched a’u cymdeithas gyfartal.
- Darlunnir bywyd beunyddiol y merched yn protestio o dan amgylchiadau anodd. Mae’r *‘tŷ di-do’* yn creu delwedd o’r amgylchiadau anodd.
- Er gwaetha’r holl amgylchiadau mae blodau’r gwanwyn yn *‘codi’* a’r *‘cennin Pedr o Gymru’n blodeuo’.*
- Cyfeirir at ymladd ganol nos a dinistrio eiddo.
- Cyfeirir at ddyfalbarhad y merched, *‘Cychwyn eto fory’*.
- Cyfleïr gobaith wrth sôn am fwy o brotestwyr yn cyrraedd.
- Mae’r *‘gerdd hir’* nawr yn drosiad am y brotest ac mae’r brotest o safbwynt y bardd yn un a ddylai berthyn i bawb.
- Hyd llinellau a hyd penillion yn amrywio yn y mesur penrhydd.
- Ceir cyfosod rhwng dynion a merched, cyferbyniad rhwng yr eira a thân, defnyddio ymadrodd *‘brwydro yn erbyn y symbylau’*; arwyddocâd y geiriau *‘chwarae tŷ bach’*, effeithiolrwydd berfenwau *‘sgwrsio a chanu, creu a chrio’*, haenau ystyr yr ymadrodd *‘cadw tŷ di-do’* ac *‘o dan draed’*, defnyddio cyflythrennu i gyfuno syniadau o ddinistrio eiddo ac ymladd, defnyddio berfenw pwerus *‘blodeuo’*.

**‘Gwenllian’ gan Myrddin ap Dafydd**

- Mae Myrddin ap Dafydd wedi mynd yn ôl mewn hanes wrth ddewis Gwenllian fel teitl cerdd ac yn ei thrafod o safbwynt heddiw.
- Meddylia’r bardd amdani fel person ac nid cymeriad mewn hanes a llwydda i ennyn ein cydymdeimlad ati.
- Mae Gwenllian y plentyn yn cynrychioli’r iaith, yr iaith Gymraeg sy’n pwyso ar gydwybod y bardd ac mae’n trin a thrafod dyfodol y Gymraeg.
- Mae'r bardd ar noson o haf yn ystod 1993 wedi ymweld ag abaty Llanfaes ar lan afon Menai ac yn myfyrio am dynged Gwenllian, am dristwch ei hanes yn cael ei chipio o Abergwyngregyn a’i halltudio i Abaty Sempringham yn dri mis oed a hefyd am dristwch nad yw pobl Gwynedd yn ymwybodol o’i bodolaeth.
- Caiff marwolaeth Gwenllian a marwolaeth yr iaith gymaint o effaith ar y tir o’n cwmpas; iaith yn gymaint rhan o’r wlad, nes ei bod mewn amser yn dod yn rhan o’r tir o amgylch.
- Testun tristwch i’r bardd yw bod pobl Gwynedd wedi troi’n ddifater a di-hid tuag at yr iaith a hanes Gwenllian.
- Caiff y Cymry eu darlunio fel *‘cregyn’* sydd heb angor na chadernid craig i’w cynnal. Y *‘graig’* a allai gynnig cadernid i’r genedl fyddai’r Gymraeg ac ymwybyddiaeth o hanes ac etifeddiaeth.
- Wrth ddisgrifio’r baban yn *‘gowlaid frau’* pwysleisir bod Gwenllian a’r iaith Gymraeg yn bethau bregus hawdd eu niweidio.
- Gwelir gweledigaeth y bardd - awgrym gobeithiol wrth gloi, llanw’n troi a’r gobaith nid yn unig y bydd pobl yn cofio am Gwenllian ond y bydd yr iaith yn adennill ei thiriogaeth ac yn hawlio ei lle.
- Er ei fod wedi mynd yn ôl mewn hanes, dyma gerdd bersonol iawn sy’n pigo cydwybod ac yn parhau’n amserol.
- Mesur cywydd sydd yma, defnydd o gynghanedd e.e. *‘distawrwydd didosturi’* i bwysleisio anwybodaeth y Cymry am hanes Gwenllian, trosiad estynedig yw Gwenllian o’r iaith

Gymraeg, creu awyrgylch trwy ddelwedd - cymharu trai afon Menai â thrai cof pobl am hanes Gwenllian a'r iaith ar drai yng Ngwynedd, defnydd amlwg o'r negyddion, cyfosod, effeithiolrwydd *'iorwg'*, cyfres o wrthgyferbyniadau, personoli, defnyddio rhagenwau hi/ei, trosiadau, ailadrodd.

*Mae modd i ymgeiswyr ennill marciau trwy gyfeirio at nodweddion perthnasol na nodwyd yn y cynllun marcio hwn. Dylid gwobrwyo pob ateb teilwng.*

© WJEC CBAC Cyf.

**Cynllun Marcio Cwestiwn 2 – Barddoniaeth 30 marc am yr ymateb ysgrifenedig a 10 am safon yr iaith a'r arddull**

| AA2 – Ymateb i Destun | AA2 – Ystod y Marciau (30) | AA3 – Ysgrifennu | AA3 – Ystod y Marciau (10) |
|---|---|---|---|
| • arddangos gwybodaeth drylwyr ac eang am y cerddi<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• cymharu a chroesgyfeirio effeithiol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dda ystod o gerddi<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at gerddi penodol a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• dadansoddi arddull yn effeithiol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn effeithiol | **24-30** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw, mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael sicr ar ramadeg a chystrawen | **8-10** |
| • arddangos gwybodaeth fanwl am y cerddi<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• cymharu a chroesgyfeirio synhwyrol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth eithaf da o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n synhwyrol ystod o gerddi<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol yn aml<br>• dadansoddi arddull yn foddhaol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn gyson | **20-23** | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir a chroyw mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | **7** |

© WJEC CBAC Cyf.

| AA2 – Ymateb i Destun | AA2 – Ystod y Marciau (30) | AA3 – Ysgrifennu | AA3 – Ystod y Marciau (10) |
|---|---|---|---|
| • arddangos gwybodaeth am y cerddi gyda manylder ar adegau<br>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• cymharu a chroesgyfeirio rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'r testun yn foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio weithiau at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas<br>• trafod agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn eithaf cyson | **15-19** | • mynegi syniadau a dadleuon yn glir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn lled ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | **5-6** |
| • arddangos gwybodaeth am gynnwys y cerddi<br>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol<br>• cymharu a chroesgyfeirio ychydig rhwng gweithiau'r beirdd<br>• arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau<br>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y cerddi<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at gerddi a defnyddio dyfyniadau addas yn achlysurol<br>• trafod rhai agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir<br>• defnyddio rhai termau gwerthfawrogi barddoniaeth | **11-14** | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | **4** |

© WJEC CBAC Cyf.

| AA2 – Ymateb i Destun | AA2 – Ystod y Marciau (30) | AA3 – Ysgrifennu | AA3 – Ystod y Marciau (10) |
|---|---|---|---|
| • arddangos gwybodaeth fras am y cerddi<br>• cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• ceisio cymharu gwaith beirdd â'i gilydd<br>• arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad<br>• dangos y tueddiad i ailadrodd cynnwys<br>• arddangos ambell enghraifft o ddatblygu syniadau personol, arwynebol<br>• defnyddio ambell i gyfeiriad penodol at gerddi a dyfynnu'n achlysurol iawn<br>• ceisio trafod ambell agwedd ar arddull<br>• defnyddio ambell derm gwerthfawrogi barddoniaeth | **6-10** | • mynegi syniadau uniongyrchol a syml yn lled glir<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | **2-3** |
| • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig | **0-5** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig | **0-1** |



© WJEC CBAC Cyf.